

Ein Proses Asesu

Os oes gennych ddi-ddordeb mewn gwneud cais am y rôl hon, byddwch yn ymwybodol y bydd eich cais yn cael ei sifftio i benderfynu addasrwydd i symud ymlaen i gyfweliad ac asesu.

Bydd y camau hidlo a'r cyfweliad ac asesu dilynol yn adolygu'r meini prawf canlynol:

Meini Prawf Hanfodol	Aseswyd adeg Sifftio	Asesu mewn Cyfweliad / Asesiad
1.1 Wedi'ch addysgu i lefel gradd neu brofiad perthnasol cyfatebol.	✓	
2.1 Sgiliau TG datblygedig gyda defnydd hyfedr o becynnau Microsoft Office	✓	
2.3 Y gallu i flaenoriaethu llwyth gwaith, gweithio'n hyblyg a rheoli eu hamser eu hunain yn effeithiol	✓	✓
2.4 Sgiliau rhyngbersonol rhagorol, gyda'r gallu i reoli amrywiaeth o randdeiliaid gyda sensitifrwydd a chyfrinachedd, gan weithredu fel llysgennad i Archwilio Cymru	✓	✓
2.5 Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar dros y ffôn ac yn bersonol, yn benodol yn gallu ymateb yn gwrtais ac yn dawel i alwadau cymhleth a delio â galwyr mewn modd proffesiynol	✓	✓
2.6 Sgiliau ysgrifenedig rhagorol, gan ddefnyddio gramadeg da, sillafu ac atalnodi a chymhwyso 'arddull tŷ' priodol wrth lunio adroddiadau a dogfennau a pharatoi deunyddiau cyflwyno	✓	✓
2.7 Gallu datblygu a chynnal perthynas waith gadarnhaol a phroffesiynol gyda staff Archwilio Cymru a chysylltiadau allanol.	✓	✓
2.8 Y gallu i weithio ar eu pen eu hun ac fel aelod allweddol o grŵp o staff medrus iawn.	✓	✓
2.9 Gallu cryf i gasglu, cymhathu, dadansoddi a chyflwyno data a gwybodaeth, gan gynnwys meysydd ar wahân o ymchwil prosiect a ddyrannwyd.	✓	✓
3.5 Profiad o ddrafftio a golygu adroddiadau.	✓	✓
4.1 Ymdrin yn sensitif ac yn ddiymwad â gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif sy'n dangos uniondeb a phroffesiynoldeb	✓	✓
4.2 Wedi ymrwymo i hunanddatblygiad a dysgu.	✓	
4.3 Gweithio'n gyfforddus mewn amgylchedd dwyieithog	✓	
4.4 Sylw rhagorol i fanylion a chywirdeb wrth ymgymryd â gwaith prosiect.	✓	
4.5 Awydd am ddatrys problemau.	✓	

4.6 Yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion sy'n ymwneud â'u maes gwaith ac yn meddwl yn greadigol ac yn defnyddio barn gadarn i oresgyn a datrys problemau wrth ddarparu gwasanaethau.	✓	
4.7 Cynnal rhaglen waith heb fawr o oruchwyliaeth	✓	
4.8 Yn gallu cynhyrchu syniadau, cynghori a dylanwadu ar siâp prosiectau.	✓	
4.9 Effro i gyfleoedd ar gyfer arloesi ac yn ymateb yn gadarnhaol i newid mewn polisi ac arferion.	✓	
5.1 Bod yn hunanymwybodol ac yn esiampl ar gyfer gwerthoedd ac ymddygiad Archwilio Cymru.	✓	
5.2 Y gallu i weithio'n hyblyg ac, os oes angen, y tu allan i oriau swyddfa arferol.	✓	
5.3 Ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.	✓	
5.4 Ymwybyddiaeth ac ymrwymiad i drefniadau iechyd a diogelwch.	✓	